

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

N Dental

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd
a'r Fro

Dyddiad arolygu: 24 Hydref 2018

Dyddiad cyhoeddi: 25 Ionawr
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	21
4.	Beth nesaf?	24
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	26
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	27
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	28
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	29

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o N Dental Ltd yn The Dental Surgery - Corporation Road, 99 Corporation Road, CF11 7AQ, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 24 Hydref 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC a dau adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod N Dental Ltd yn darparu gwasanaeth proffesiynol i'w gleifion.

Mae'r practis wedi newid dwylo yn ddiweddar ac mae'n mynd drwy gyfnod o newid mawr. Mae'n amlwg bod gan y perchennog a'r rheolwr wybodaeth dda iawn am yr hyn sydd ei angen a chynllun hirdymor ar gyfer y dyfodol.

Roedd cofnodion clinigol yn cael eu cynnal i safon uchel iawn. Am fod y practis wedi newid dwylo, mae'r holl bolisiâu a gweithdrefnau yn cael eu hailystyried a'u hadolygu sy'n golygu llawer iawn o waith i reolwr y practis.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd tystiolaeth bod rheolwr y practis yn rheoli ac yn arwain yn gadarn, ar ôl cymryd yr awenau yn y practis hirsefydledig yn ystod y deuddeg mis diwethaf
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch
- Roedd y practis yn gallu cyfathrebu â chleifion mewn nifer o ieithoedd, a oedd yn benodol i'r gymuned leol

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis wneud trefniadau i wella cyflwr y safle presennol y mae angen buddsoddi ynddo a'i adnewyddu, neu fynd ati ar frys i chwilio am safle newydd yn yr ardal
- Rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion papur cleifion, a gaiff eu tynnu o'r archif yn barod ar gyfer apwyntiadau, yn cael eu storio'n ddiogel nes y cânt eu dychwelyd i'r archif.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae N Dental yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Grangetown yng Nghaerdydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, tair nyrs ddeintyddol, un hylenydd, un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, un derbynnydd a rheolwr practis sydd hefyd yn nyrs ddeintyddol gofrestredig.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod N Dental yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y cleifion. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref ac roedd y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i gefnogi'r cleifion a'r staff.

Roedd cofnodion clinigol, yn ogystal â ffeiliau'r staff a gwybodaeth am y practis, yn cael eu cynnal i safon dda.

Yn ystod ein harolygiad, dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 21 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis ers mwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Dywedodd rhai ei fod yn 'dda' neu'n 'weddol'. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan gleifion ar yr holiaduron mae'r canlynol:

"Bob amser yn garedig ac yn barod i helpu"

"Ers i'r practis newid dwylo, mae ymddangosiad yr ystafelloedd ymgynghori ac ymddygiad cyfeillgar a phroffesiynol fy neintydd wedi gwneud argraff fawr arnaf"

"Mae'r staff yn y practis deintyddol hwn yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus gan fy mod i'n nerfus iawn am unrhyw driniaeth"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo; roedd y sylwadau a gafwyd yn cynnwys:

"Mae'r practis deintyddol yn darparu gwasanaeth da"

"Mae'r practis deintyddol wedi gwella llawer ers fy ymweliad diwethaf"

"Dydw i byth wedi cael problemau gwneud apwyntiadau, ond mae wedi bod yn amhosibl bron dros y deuddeg mis diwethaf. Newid deintyddion a diffyg apwyntiadau, ddim yn dda."

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gwelsom fod ystod eang o wybodaeth ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros am driniaethau preifat a thriniaethau'r GIG, yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am iechyd y geg i oedolion a phlant. Roedd gan y practis fwrdd arddangos yn dangos faint o siwgr sydd mewn amrywiaeth o ddiodydd cyffredin. Roedd hon yn enghraifft dda o'r practis yn helpu cleifion i ddiogelu iechyd a hylendid y geg.

Gofal gydag urddas

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis. Dywedodd un claf wrthym fod staff y dderbynfa yn gwneud hynny, ond nid y deintydd.

Dywedodd y staff wrthym, os oedd angen cael sgwrs breifat â chlaf, y byddent yn mynd ag ef i ardal wrth ymyl y dderbynfa er mwyn atal sgysiau rhag cael eu clywed gan bobl eraill.

Roedd gan y practis bolisïau priodol hefyd i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Nodwyd gennym fod y naw Egwyddor a nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol¹ i'w gweld yn y dderbynfa. Mae'r egwyddorion yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Gwybodaeth i gleifion

¹ <https://standards.gdc-uk.org/>

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth (cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny), a dywedodd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Pan fo'n briodol, dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod bob amser yn cael eu hysbysu'n llawn am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

Gwelsom fod y daflen wybodaeth i gleifion ar gael i gleifion yn yr ardal aros a'i bod yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr am y practis. Gwelsom bosteri yn dangos costau triniaethau preifat a chostau triniaethau'r GIG wedi'u harddangos yn yr ardal aros. Roedd taflenni a oedd yn cynnwys gwybodaeth am driniaethau a materion deintyddol hefyd ar gael er mwyn helpu'r cleifion i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd geneuol ac opsiynau triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Er bod gwybodaeth ddwyieithog ar gael ar rai o'r posteri ar yr hysbysfyrddau, Saesneg oedd iaith y wybodaeth ysgrifenedig a oedd ar gael yn y dderbynfa yn bennaf. Dylid gwneud trefniadau i ddarparu mwy o wybodaeth yn Gymraeg a helpu'r staff i wneud 'Cynnig Rhagweithiol'.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod mwy o'r wybodaeth a gaiff ei harddangos yn y practis ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg

Gofal amserol

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Roedd gwybodaeth am sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys wedi'i harddangos yn glir ar ffenestr flaen y practis ac yn cael ei rhoi fel rhan o neges peiriant ateb y practis.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau y câi'r cleifion eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym, pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf a oedd yn aros am unrhyw oedi.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Lle roedd hynny'n gymwys, cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Mae'r deintyddfeydd a'r ardal aros i gyd ar y llawr daear. Mae'r adeilad i gyd yn fawr ac yn hygyrch i bobl â phroblemau symudedd a phobl sy'n defnyddio cadair olwyn; mae hyn yn cynnwys y toiled.

Gwranddo a dysgu o adborth

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn yn ein holiadur ynghylch pa mor hawdd ydyw i gael apwyntiad yn amrywio o "hawdd iawn" i "ddim yn hawdd iawn"; dywedodd un claf nad oedd yn hawdd o gwbl.

Holwyd rheolwr y practis am y system apwyntiadau. Roedd y system wedi newid rhywfaint ar ôl i'r practis newid dwylo ac roedd rhai cleifion yn ei chael hi'n anodd ymgyswngi â'r newid.

Roedd gan y practis holiadur lle y gallai cleifion roi sgôr i'r gwasanaeth roeddent wedi'i gael a gadael sylwadau. Awgrymwyd y dylid hysbysu cleifion am unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r sylwadau.

Gwelsom fod polisi cwynion ar waith a oedd yn cydymffurfio â rhaglen Gweithio i Wella² y GIG a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.

²http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/932/Healthcare%20Quality%20-%2030166_Putting%20Things%20Right_a5%20leaflet_Welsh_WEB%20VERSION%20-%20FINAL%20-%202017%2003%20011.pdf

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Roedd cofnodion meddygol yn cael eu cynnal i safon uchel.

Nodwyd bod cyfleusterau clinigol da ar gael ond, am fod yr offer yn y deintyddfeydd wedi cael ei adael gan y perchenogion blaenorol, mae angen atgyweirio neu newid rhai eitemau.

Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod y deintyddfeydd yn cydymffurfio â WHTM 01-05³

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn "gymharol lân" neu'n "lân iawn".

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef. Roedd angen rhoi sylw i'r tu allan i'r adeilad gan fod paent yn pilio oddi ar y wal, ond rhoddodd perchennog y practis sicrwydd i ni bod cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn. Y tu mewn, roedd yr adeilad yn fawr ac yn olau. Roedd digon o gyfleusterau mynediad i bobl â phroblemau symudedd ac roedd y ffaith bod y fynedfa ar lefel y stryd yn golygu ei bod yn wastad i bobl a oedd yn defnyddio cadair olwyn.

³ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/254/WHTM%2001-05%20Revision%201.pdf>

Gwelsom fod nifer o bolisiâu ar waith mewn perthynas ag addasrwydd y safle, gan gynnwys polisi iechyd a diogelwch a pholisiâu ar gyfer defnyddio cyfarpar yn ddiogel. Roedd polisiâu ac asesiadau risg ar gael yn hawdd i bob aelod o'r staff ac yn cael eu nodi mewn cyfarfodydd tîm. Roedd asesiad risg amgylcheddol wedi cael ei gynnal yn ddiweddar mewn perthynas â phob agwedd ar yr amgylchedd, gan gynnwys y llethrau bach ar y llawr a oedd yn arwain i'r ddwy ddeintyddfa. Roedd yr ystafell aros yn fawr ond roedd ôl defnydd arni. Fodd bynnag, nodwyd efallai nad oedd ailaddurno'r ystafell yn ymarferol am fod y perchennog yn chwilio am safle newydd.

Nodwyd y byddai polisiâu newydd yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd tîm a gynhelir bob chwe wythnos. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y polisiâu wedi'u llofnodi gan y staff i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall. Hysbyswyd y practis y dylid gwneud hyn. Mae'r practis wrthi'n diwygio'r holl bolisiâu a gweithdrefnau ar ôl cymryd yr awenau wrth y rheolwyr blaenorol yn ystod y 18 mis diwethaf.

Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a nodwyd gennym eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Nodwyd bod y rhain wedi'u gosod yn sownd i'r wal yn briodol er mwyn atal y tebygolrwydd o anaf i gleifion, ymwelwyr neu'r staff.

Roedd system larwm tân wedi'i gosod yn yr adeilad hefyd. Roedd contractau cynnal a chadw priodol ar gael ac roedd tystiolaeth i ddangos bod ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn hyderus sut i ymateb pe bai angen gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Roedd arwyddion mawr a goleuadau argyfwng yn golygu bod yr allanfeydd tân wedi'u dynodi'n glir. Roedd yr asesiad risg tân wedi'i gwblhau o fewn y deuddeg mis diwethaf yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005⁴.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig) yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio mewn sied yng nghefn y safle nad oedd ar glo yn wreiddiol. Gwnaeth y practis drefniadau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn. Rhaid i'r sied gael ei chadw ar glo er mwyn sicrhau na all y cyhoedd gael gafael ar wastraff clinigol.

⁴ <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2005/1541/contents/made>

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002⁵, mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Nid oedd y practis wedi gallu cyflwyno protocol 'Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd' (COSHH) na pholisi ar gyfer trin a thrafod mercwri i ni. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth i ddangos bod gan y practis y citiau priodol i drin a thrafod mercwri. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y polisi hwn ar gael.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y storfa gwastraff clinigol yn cael ei chadw ar glo bob amser.

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cwblhau ei brotocol COSHH a'i bolisi ar drin a thrafod mercwri er mwyn eu cynnwys yn ei ffeil polisïau.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell ddynodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol yn y ddeintyddfa, fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁶. Roedd yr ystafell hon yng nghefn deintyddfa dau. Roedd yr ystafell yn gymharol lân ond roedd hi'n rhy llawn. Roedd y cypyrddau'n cynnwys llawer o eitemau nad oedd eu hangen yn ystod y broses ddihalogi. Rhaid i'r practis sicrhau bod yr ystafell hon yn cael ei thacluso a'i glanhau'n drylwyr. Roedd rhai o ddrysau'r cwpwrdd mewn cyflwr gwael gyda cholfachau wedi torri ac roedd un drws wedi dod i ffwrdd o'r cwpwrdd yn gyfan gwbl. Rhaid i'r practis sicrhau bod y rhain yn cael eu hatgyweirio neu'u newid. Roedd rhywfaint o'r llawr o amgylch ymyl yr ystafell yn codi ac roedd angen ei ailselio.

Nodwyd hefyd nad oedd y tapiau yn yr ystafell ddihalogi yn cydymffurfio â WHTM 01-05. Rhaid i'r practis sicrhau bod tapiau newydd yn cael eu prynu.

⁵ http://www.hse.gov.uk/foi/internalops/ocs/200-299/273_20/

⁶ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd dau awtoclaf yn yr ystafell ddihalogi. Roedd y cofnodion ar gyfer y ddau ohonynt yn gyfredol. Roedd gwall gweinyddol ar ran y contractwr gwasanaethu yn golygu na allai'r practis ddarparu tystysgrif gwasanaethu ar gyfer un awtoclaf. Fodd bynnag, roedd digon o dystiolaeth ategol ar gael i ddangos bod y gwaith gwasanaethu yn gyfredol. Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn archwilio'r dogfennau hyn yn fanwl yn y dyfodol er mwyn sicrhau eu bod yn gywir.

Gwelsom dystiolaeth fod protocol ar waith i wirio'r offer sterileiddio. Roedd polisi rheoli heintiau a pholisi ar ddiogelwch offer miniog ar gael i'r staff gyfeirio atynt, sy'n golygu bod y staff a'r cleifion yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol rhag anafiadau a heintiau a achosir gan nodwyddau⁷. Roedd gan y practis amserlen lanhau i'r staff ei dilyn er mwyn sicrhau bod pob ardal yn lân ac yn daclus bob amser. Roedd y staff wedi gallu disgrifio'r broses ddihalogi i'r tîm.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth wneud gwaith dihalogi.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar reoli heintiau. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn unol â WHTM 01-05. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd profion protein⁸⁹ yn cael eu cynnal. Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn a aeth ati ar unwaith i gyflwyno'r broses.

Sylwyd bod y llawr yn y ddwy ddeintyddfa wedi rhwygo a'i fod yn codi i ffwrdd o'r waliau, a oedd yn golygu nad oedd sêl. Gallai hyn amharu ar y gallu i lanhau'n effeithiol. Roedd ôl traul sylweddol ar y ddwy gadair triniaeth yn y ddwy ddeintyddfa. Er bod tâp plastig wedi'i ddefnyddio i orchuddio'r manau perthnasol, gallai hyn amharu ar y gallu i lanhau'r cadeiriau'n effeithiol. Rhaid i'r ddeintyddfa atgyweirio'r eitemau hyn neu benderfynu'n gyflym p'un a fydd yn newid safle ac, felly, yn prynu eitemau newydd.

⁷ <http://www.hse.gov.uk/healthservices/needlesticks/>

⁸ <https://www.isopharm.co.uk/dental/htm-01-05-protein-residue-test>

⁹ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/254/WHTM%2001-05%20Revision%201.pdf>

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod dogfennau cynnal a chadw ar gyfer yr awtoclafau yn cael eu harchwilio a'u bod yn gyfredol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau Rheoli Heintiau yn cydymffurfio â WHTM 01-05.

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr olion traul ar y ddwy gadair triniaeth yn cael eu hatgyweirio neu fod cadeiriau newydd yn cael eu prynu wrth symud safle.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y llawr yn y ddwy ddeintyddfa yn cael ei atgyweirio i safon dderbyniol tra'i fod yn aros i symud i safle arall.

Rheoli meddyginiaethau

Nid oedd gan y practis bolisi penodol i ddelio ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion, ond roedd ganddo gynllun gweithredu i'r staff ei ddilyn o dan amgylchiadau o'r fath a oedd yn cynnwys rhifau cyswllt perthnasol. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y deuddeg mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR)¹⁰. Rhaid i'r practis sicrhau bod ganddo bolisi penodol ar gyfer argyfyngau meddygol a rhaid iddo ei adolygu'n flynyddol.

Roedd y practis wedi penodi dau swyddog cymorth cyntaf, gan sicrhau y cai'r staff a'r cleifion gymorth cyntaf priodol pe byddai damwain neu anaf.

Roedd gan y practis y cyffuriau argyfwng a'r offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)¹¹. Fodd bynnag, nid oedd gan y diffibriliwr badiu pediatrig. Archebodd y practis y padiau hyn yn ystod yr arolygiad.

Gwelwyd bod dyddiad rhai eitemau yn y pecyn cymorth cyntaf wedi dod i ben. Tynnwyd sylw'r practis at hyn a rhoddwyd eitemau newydd yn y pecyn ar

¹⁰ <https://www.bhf.org.uk/how-you-can-help/how-to-save-a-life/how-to-do-cpr>

¹¹ Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu

unwaith. Rhaid i'r practis sicrhau bod y pecyn cymorth cyntaf yn cael ei archwilio'n rheolaidd a bod eitemau newydd yn cael eu cynnwys yn lle eitemau sydd wedi dyddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod ganddo bolisi penodol ar gyfer argyfyngau meddygol a thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob eitem yn y pecyn cymorth cyntaf yn gyfredol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu perthnasol.

Ar adeg yr arolygiad, roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu priodol. Mae'r practis wedi enwebu arweinydd diogelu.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod offer priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd yr offer radiolegol (pelydr-X) mewn cyflwr da ac roedd yr ardaloedd rheoledig wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal, yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol. Nodwyd bod y rheolau lleol¹² wedi'u harddangos yn y deintyddfeydd, ond nid oeddent yn gyfredol mwyach am fod peiriant newydd wedi cael ei osod yn neintyddfa un yn ddiweddar. Rhaid i'r practis sicrhau bod y rhain yn cael eu diweddarau.

¹² Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

Nodwyd mai perchennog y practis oedd y Goruchwyliwr Diogelu Rhag Ymbelydredd¹³. Gwelsom nad oedd rhestr offer y practis yn gyfredol ac nad oedd archwiliadau sicrhau ansawdd ar gael ar gyfer 2018. Rhaid i'r practis sicrhau bod y dogfennau hyn yn cael eu diweddarau yn unol â'r rheoliadau.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol¹⁴ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)¹⁵ 2000, roedd pob nyrs ddeintyddol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y rheolau lleol a arddangosir yn y deintyddfeydd yn gyfredol ac yn berthnasol i'r offer a ddefnyddir.

Rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau offer yn gyfredol a bod archwiliadau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal a'u bod ar gael i'w harolygu.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Cafodd y practis ei brynu'n ddiweddar gan ei berchennog presennol ac mae angen gwneud llawer o waith ailstrwythuro er mwyn sicrhau bod y practis yn gyfredol. Gwelsom fod rheolwr y practis a'r staff yn gweithio'n galed iawn i wneud hyn.

Nodwyd nad oedd archwiliadau wedi cael eu cynnal mewn perthynas â rhagnodi gwrthfotigau a rhoi'r gorau i smygu. Byddem yn cynghori y dylai'r practis ehangu ei archwiliadau er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu yn unol ag arfer gorau mewn amrywiaeth eang o feysydd.

¹³ <http://www.hse.gov.uk/pubns/irp6.pdf>

¹⁴ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

¹⁵ http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/ukxi_20001059_en.pdf

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gynnal amrywiaeth eang o archwiliadau er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n unol ag arfer gorau.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cynnal archwiliadau adolygu cymheiriaid gan ddefnyddio adnodd datblygu practisau 'Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth' Deoniaeth Cymru¹⁶. Roedd hyn yn cynnwys archwiliad mewn perthynas â phelydrau-X a chwblhau cofnodion meddygol a gedwir yn y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ystyried defnyddio'r adnodd datblygu 'Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth' ym mhob agwedd ar ei waith.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd llawer o gofnodion yn cael eu cadw yn y dderbynfa ar gyfer cleifion oedd ag apwyntiadau a'r rhai a oedd yn cael triniaeth barhaus. Mae'r practis newydd ddechrau defnyddio system ddigidol i gadw cofnodion a fydd yn golygu na fydd angen y cofnodion papur hyn yn y pen draw.

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl gofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei diogelu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ddefnyddio system fwy diogel i ddal cofnodion y tu allan i'r archif ar gyfer apwyntiadau sydd i ddod.

¹⁶ <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o safon dda ar y cyfan. Roedd y nodiadau'n fanwl ond, mewn nifer fach o achosion, gwelsom fylchau yn y cofnodion yn y meysydd canlynol:

- Cyngor ar roi'r gorau i smygu (rhai cofnodion)
- Sgrinio ar gyfer canser (wedi cael ei wneud ond heb ei gofnodi)

Mae'r practis newydd ddechrau defnyddio system electronig i gadw cofnodion a fydd ond yn gwella'r cofnodion presennol. Gwneir copïau wrth gefn o'r system electronig oddi ar y safle a chânt eu storio'n ddiogel.

Fel y nodwyd eisoes, caiff rhai cofnodion eu cadw yn y dderbynfa tra bod cleifion yn aros am apwyntiadau yn y dyfodol agos neu apwyntiadau dilynol. Mae angen i'r rhain gael eu storio mewn ffordd fwy diogel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o staff y practis yn cadw cofnodion cyson o'r wybodaeth uchod er mwyn cynnal safon uchel y cofnodion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom dystiolaeth o wybodaeth ac arweinyddiaeth dda gyda llinellau atebolrwydd ar gyfer staff ar y safle hwn.

Roedd gan y practis ystod gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau. Etifeddwyd y rhain oddi wrth y perchennog blaenorol ac mae rheolwr y practis yn adolygu pob un ohonynt ar hyn o bryd.

Mae gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith. Roedd tystiolaeth bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal a bod y practis yn bodloni gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r practis hefyd yn cyflwyno cynlluniau Datblygiad Proffesiynol Personol ar gyfer staff.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Practis deintyddol annibynnol yw N Dental. Mae'r gwaith o redeg y practis o ddydd i ddydd yn cael ei wneud gan reolwr y practis.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Daflen Wybodaeth i Gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Gwelwyd bod rheolwr y practis wrthi'n diweddarau holl bolisiâu a gweithdrefnau'r practis, ar ôl cymryd yr awenau yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Mae'r polisiâu hyn yn ymdrin â phob agwedd berthnasol ar y rheoliadau ond mae angen nodi'n benodol pa agwedd ar y rheoliadau y mae pob polisi yn ymdrin â hi.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei bod yn ymwybodol o'i dyletswyddau o ran yr hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb y rheolwr cofrestredig neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig, y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC¹⁷.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar eu cyfer. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol y practis yn cael ei harddangos yn y dderbynfa

Yr hyn sydd angen ei wella

Wrth ddiweddarau polisïau a gweithdrefnau'r practis, rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn nodi pa agwedd ar y rheoliadau y maent yn ymwneud â hi.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd gan y practis nifer o bolisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol, gan gynnwys polisi recriwtio. Roedd y staff hefyd yn cael arfarniadau rheolaidd ac roedd gan bob aelod o'r staff gynlluniau datblygu personol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gwelsom dystiolaeth bod gan bob aelod o'r staff contract cyflogaeth.

¹⁷ O dan reoliadau 25-29 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, rhaid i'r darparwr cofrestredig hysbysu AGIC am ddigwyddiadau pwysig, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb y rheolwr cofrestredig neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos tystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac a oedd yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd staff bob chwe wythnos. Gwelsom gofnodion y cyfarfodydd hyn ac roedd staff na allant fod yn bresennol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan reolwr y practis drwy e-bost. Efallai yr hoffai'r practis ystyried gofyn i'r staff lofnodi'r cofnodion er mwyn dangos eu bod wedi'u darllen a'u deall, a gwneud yr un peth ar gyfer unrhyw bolisiâu newydd a drafodir yn y cyfarfodydd hyn.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff¹⁸.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiwneddio yn erbyn Hepatitis B er mwyn amddiffyn y cleifion a nhw eu hunain yn erbyn yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

¹⁸ <https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service>

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw faterion roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: N Dental

Dyddiad arolygu: 24 Hydref 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Insert issue				
Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: N Dental

Dyddiad arolygu: 24 Hydref 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Sicrhau bod y wybodaeth a gaiff ei harddangos yn y practis ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg	4.1 Gofal Gydag Urddas;			
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r practis sicrhau bod y storfa gwastraff clinigol yn cael ei chadw ar glo bob amser. Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cwblhau ei brotocol COSHH a'i bolisi ar drin a thrafod	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; 22 Rheoliadau Deintyddiaeth			

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
mercwri er mwyn eu cynnwys yn ei ffeil polisïau.	Breifaf			
Rhaid i'r practis sicrhau bod dogfennau cynnal a chadw ar gyfer yr awtoclafau yn cael eu harchwilio a'u bod yn gyfredol. Rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau Rheoli Heintiau yn cydymffurfio â WHTM 01-05. Rhaid i'r practis sicrhau bod yr olion traul ar y ddwy gadair triniaeth yn cael eu hatgyweirio neu fod cadeiriau newydd yn cael eu prynu wrth symud safle. Rhaid i'r practis sicrhau bod y llawr yn y ddwy ddeintyddfa yn cael ei atgyweirio i safon dderbyniol tra'i fod yn aros i symud i safle arall.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi, 13 (3) (b) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 22 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat			
Rhaid i'r practis sicrhau bod ganddo bolisi penodol ar gyfer argyfyngau meddygol a thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd. Rhaid i'r practis sicrhau bod pob eitem yn y pecyn cymorth cyntaf yn gyfredol.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau; 13 (2) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat			

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r practis sicrhau bod y rheolau lleol a arddangosir yn y deintyddfeydd yn gyfredol ac yn berthnasol i'r offer a ddefnyddir. Rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau offer yn gyfredol a bod archwiliadau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal a'u bod ar gael i'w harolygu.	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol; 13 (2) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat			
Dylai'r practis gynnal amrywiaeth eang o archwiliadau er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n unol ag arfer gorau	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol 13 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat			
Dylai'r practis ystyried defnyddio'r adnodd datblygu 'Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth' ym mhob agwedd ar ei waith	3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi 16 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat			

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r practis ddefnyddio system fwy diogel i ddal cofnodion y tu allan i'r archif ar gyfer apwyntiadau sydd i ddod.	3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu; 20 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat			
Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o staff y practis yn cadw cofnodion cyson o'r wybodaeth uchod er mwyn cynnal safon uchel y cofnodion.	3.5 Cadw cofnodion 20 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat			
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Wrth ddiweddarau polisïau a gweithdrefnau'r practis, rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn nodi pa agwedd ar y rheoliadau y maent yn ymwneud â hi.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd;			

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad: